# Bomiau Hadau Blodau Gwyllt




## Amcanion dysgu:

Archwilio deunyddiau naturiol megis hadau, pridd a chlai gan ddefnyddio'r synhwyrau.

Dechrau sylwi y gall hadau dyfu'n flodau a bod planhigion angen gofal, dŵr a golau haul.

Datblygu sgiliau corfforol cynnar drwy wasgu, patio, rholio a siapio deunyddiau gyda chefnogaeth oedolyn.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Dechrau o Hedyn

## Gwybodaeth ymarferydd:

Mae plannu llawer o flodau gwyllt yn bwysig oherwydd eu bod yn darparu bwyd i beillwyr megis gwenyn, pili pala a phryfed eraill. Yn eu tro, mae mannau sy'n llawn blodau gwyllt yn cefnogi bioamrywiaeth ehangach, gan fod y pryfed hyn yn dod yn fwyd i adar a bywyd gwyllt arall.

Mae cynefinoedd blodau gwyllt wedi lleihau'n sylweddol yn y DU, felly gall creu hyd yn oed mannau bach wneud gwahaniaeth cadarnhaol i natur.

Mae blodau gwyllt hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu cyfoethog i blant ifanc. Maen nhw'n annog arsylwi manwl, archwilio synhwyraidd, datblygiad iaith cynnar ac ymddygiadau gofalgar. Gall profiadau plannu yn yr tu allan helpu plant i adeiladu cysylltiad â'r byd naturiol, tra'n dod â lliw, gwead a symudiad i'r amgylchedd.

Lle bo modd, dewiswch hadau blodau gwyllt brodorol neu rai sy'n gyfeillgar i beillwyr i weddu i'ch ardal leol. Dylid defnyddio bomiau hadau mewn mannau lle mae gennych chi ganiatâd i'w tyfu yn unig, megis planwyr, borderi, darn o ardd neu ardal ddôl fach yn eich lleoliad.

## Sut i wneud bomiau hadau blodau gwyllt

**Byddwch angen:**

- 1 cwpan o hadau blodau gwyllt
- 5 cwpan o gompost di-fawn
- 2–3 cwpan o flawd, glai powdr neu bridd clai
- Ychydig o ddŵr – digon i wneud i bopeth lynu gyda'i gilydd
- Powlen neu hambwrdd ar gyfer cymysgu
- Llwyau neu sgwpiau ar gyfer y rhai nad ydynt yn hoffi cael eu dwylo'n fudr

## Cyfarwyddiadau cam wrth gam

- Rhowch yr gompost di-fawn mewn powlen neu hambwrdd.
- Ychwanegwch hadau blodau gwyllt.
- ychwanegwch y blawd/clai powdr/  pridd clai.
- Ychwanegwch ychydig bach o ddŵr yn araf a chymysgwch bopeth gyda'ch dwylo.
- Parhewch i wasgu'r cymysgedd nes ei fod yn glynu gyda'i gilydd.
- Cymerwch lond llaw bach a'i rolio'n bêl.
- Parhewch nes bod yr holl gymysgedd wedi'i rolio'n fomiau hadau.
- Gadewch i'r bomiau hadau sychu am gyfnod byr mewn man cynnes neu heulog.
- Pan fyddant yn barod, rhowch y bomiau hadau ar bridd noeth mewn ardal lle mae gennych chi ganiatâd i'w plannu.

**Gwyliwch ac arhoswch i law, haul ac amser helpu'r hadau i ddechrau tyfu!**




Cefnogaeth oedolion a diogelwch: Bydd angen goruchwyliaeth lawn ar blant o dan dair mlwydd oed drwy gydol y gweithgaredd. Anogwch gyffwrdd, gwasgu a rholio, ond atgoffwch y plant na ddylent fwyta'r hadau a'r pridd. Cynigiwch olchi dwylo ar ôl y gweithgaredd ac addaswch y profiad ar gyfer plant a allai ffafrio archwilio gyda theclynnau yn hytrach na'u dwylo.

Eco-Tots Cymru

cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

The Moondance Foundation

Dechrau o Hedyn